

Yr Ysgol Sul

Darlleniad: Salm 119: 97-112

Diolchwn, Arglwydd, am etifeddiaeth gyfoethog yr Ysgol Sul yn ein gwlad. Diolch am weledigaeth Griffith Jones i hyfforddi a pharatoi pobl i ddeall iaith pregeth a iaith yr efengyl. Diolch iddo ddod â'r efengyl i feddyliau a chalonnau'r werin o bob oed. Diolch am ei faich dros achubiaeth y Gymru Gymraeg yn ei ddydd. Helpa ni, Arglwydd i barhau ei weledigaeth, a'i addasu yn ôl amgylchiadau ein dyddiau ni, heb newid yr Efengyl tragwyddol yn Iesu Grist. Helpa ni i barhau i gyflwyno neges y creu, y cwmp a'r cyfiawnhad sydd i bechadur yn Iesu Grist.

Diolchwn yn ostyngedig iawn am ddylanwad adeiladol yr Ysgol Sul ar genedlaethau o blant, ieuentid a phobl ifanc. Diolchwn am yr Ysgol Sul fel cyfrwng i'w gwreiddio yn y gwirionedd Cristnogol. Diolch bod llawer o blant ac ieuentid wedi medru defnyddio'r wybodaeth a gawsant yn yr Ysgol Sul i droi at yr Arglwydd Iesu fel eu Gwardwr personol yn nes ymlaen mewn bywyd wrth weld eu hangen amdano yn gliriach.

'Hyffordda blentyn ar ddechrau ei daith, ac ni thry oddi wrthi pan heneiddia.' Diolch hefyd fod addysg yr Ysgol Sul wedi bod yn gyfrwng i lawer Cristion blymio'n ddyfnach i wirioneddau'r Beibl. Diolchwn am athrawon a fu, ac sydd yn dysgu plant neu oedolion. Diolch am y rhai sydd yn hau had y goleuni mewn gobaith. Diolch am athrawon Ysgol Sul sydd fel cyfaill annwyl i blentyn mewn bywyd. Diolch am eu hymdrechion yn paratoi gwersi, yn eiriol dros ddisgyblion mewn gweddi, yn estyn cyfeillgarwch, yn ogystal â'u hyfforddiant. Diolch am ddynion a merched a fu'n meithrin disgyblion 'yn nisgyblaeth a hyfforddiant yr Arglwydd'.

Diolch yn fawr am bob un sydd ynghlwm wrth waith yr Ysgol Sul yn ein dyddiau dyrys ni. Gweddïwn i ti, Arglwydd, fendithio'r holl waith sydd yn cael ei wneud. Gofynnwn i ti hyfforddi'n

cenhedlaeth ni eto trwy dy air a thrwy gyfrwng yr Ysgol Sul.
Gofynnwn i ti, yn dy ras, i arwain Cymry Cymraeg i'th adnabod, ac
i brofi iachawdwriaeth yn Iesu Grist.

Helpa ni i sicrhau bod ein gwersi yn cyfleu gwirionedd a
phwyslais Beiblaidd, ac yn cyfleu gogoniant yr Arglwydd Iesu
Grist. Gwared ni rhag colli gweledigaeth dros yr Ysgol Sul.
Gwared ni rhag anghofio ei gweinidogaeth allweddol oddi mewn i
eglwys Iesu Grist. Gwared ni rhag gollwng cyfrifoldeb addysg
foesol ac ysbrydol ein plant a'n hieuentid yn llwyr i gyrff seciwlar.
Rho i ni frwdfrydedd a ffresni wrth hyfforddi pobl yn ofn yr
Arglwydd, ac wrth gyfleu iddynt dy gariad anfeidrol at fyd colledig.

O! Arglwydd, tania ni, trugarha wrthym a defnyddia ni yng
ngwaith yr Ysgol Sul, er gogoniant i'r Arglwydd Iesu, yr hwn yr
oedd ei ddisgyblion yn ei alw'n athro. Amen.

John Treharne